

Ymateb Archwilio Cymru

Cyflwyniad

- 1 O ystyried ein cylch gwaith, byddwch yn gwerthfawrogi na fyddai'n briodol inni roi sylwadau ar flaenoriaethau cymharol y Pwyllgor, na'r meysydd ffocws blaenoriaeth cymharol y mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd wedi'u nodi yn eu llythyr at y Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud sylwadau isod ar rai materion penodol sy'n deillio o'n gwaith blaenorol a'r gwaith sydd ar y gweill a allai fod yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac i'r pynciau sy'n codi yn llythyr y Gweinidogion. Gobeithiwn y bydd hyn yn werthfawr i'r Pwyllgor wrth iddo lunio ei raglen waith.
- 2 Yn berthnasol i rai o'r pynciau sydd o fewn llythyr y Gweinidogion, rydym hefyd yn ymwybodol o rywfaint o waith yr ymchwiliad diweddar gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn Senedd y DU ar ynni adnewyddadwy yng Nghymru a seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Adfywio canol trefi

- 3 Ar yr 2il o Fedi fe gyhoeddodd adroddiad ar adfywio canol trefi. Mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd wedi tynnu sylw at y pwnc hwn ymhlith eu blaenoriaethau. Rydym eisoes wedi tynnu sylw at y gwaith hwn yn ein hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Gall hefyd fod yn berthnasol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Yn ystod ein gwaith, rhannom ein canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru ac fe aethom i Grŵp Gweithredu Canol Tref y Gweinidog blaenorol. Mae ein hadroddiad yn galw am benderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol ein trefi, gan wneud argymhellion i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Newid hinsawdd a sero net

- 4 Mae'r targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod yn y maes hwn yn heriol. Rydym wedi ymrwmo i chwarae ein rhan drwy ein rhaglen archwilio i adrodd ar sut mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb i'r her hon ac i helpu i ddod â phobl at ei gilydd i rannu arfer da. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi adroddiad 'Darlun o Wasanaethau

Cyhoeddus' newydd a fydd, ymhlith pethau eraill, yn myfyrio ar y mater hwn, gan nodi bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan newid hinsawdd. Byddwn yn nodi y gallai fod cyfaddawdau anodd i'w gael rhwng nodau cyfiawnder cymdeithasol a lleihau carbon, rhywbeth y byddwn hefyd yn ei drafod yn ein hadroddiad arfaethedig ar y Rhaglen Cartrefi Cynnes (gweler paragraff 9).

- 5 Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad cychwynnol ar newid hinsawdd a fydd yn creu'r cynfas ac yn helpu i lywio penderfyniadau am waith archwilio dros y blynyddoedd i ddod. Disgwyliwn gwblhau'r adolygiad sylfaenol ar ddechrau 2022-23, gyda thystiolaeth yn cael ei chasglu'n barhaus drwy'r hydref/gaeaf hwn. Byddwn yn ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn paratoi i gyflawni cynlluniau lleihau carbon 2030 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried cyfrifoldeb arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a'r trefniadau y mae cyrff unigol yn eu rhoi ar waith. Byddwn yn casglu tystiolaeth gan ein cyrff archwiliedig drwy'r hydref. Bydd yr adolygiad sylfaenol hefyd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol o'n rhaglen archwilio ehangach.

Y rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio, safonau tai a thlodi tanwydd

- 6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw waith archwilio i ystyried y rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio. Fodd bynnag, mae aelod o'n tîm arfer da wedi bod yn sylwedydd ar grŵp cynghori sy'n ystyried caffael a datblygu'r gadwyn gyflenwi. Hyd yma, ein canfyddiad ni yw bod llawer o'r ymgysylltu drwy'r rhaglen hon wedi bod gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn ogystal â chwestiwn y sectorau rhentu preifat a pherchen-feddiannwyr, mae yna'r her o ran gweddill y stoc sy'n eiddo i'r awdurdod lleol.
- 7 Mae llythyr y Gweinidogion yn cyfeirio at gynlluniau i werthuso'r rhaglen SATC hirsefydlog a datblygu safon ddiwygiedig. Adroddwyd yn genedlaethol ar raglen SATC yn 2012. Pan gafodd ei lansio, nod gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r holl dai cymdeithasol yn cyrraedd SATC erbyn mis Mawrth 2012, er iddo osod targed yn ddiweddarach i bob landlord cymdeithasol wella eu stoc tai er mwyn cyrraedd SATC 'cyn gynted â phosibl, ond yn bendant erbyn 2020'.
- 8 Yn 2012, adroddwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n ddigon cyflym i gefnogi a monitro cynnydd ac nad oedd wedi rhoi fframwaith effeithiol ar waith i ddangos gwerth am arian o'r buddsoddiad sylweddol mewn gwaith i gyrraedd SATC. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym hefyd wedi adrodd ar y pwnc hwn mewn nifer o awdurdodau lleol a oedd yn dal i fethu â chyrraedd SATC (hyd yn oed yn caniatáu ar gyfer yr hyn sy'n cael ei gategoreiddio'n 'fethiannau derbynio!'). Deallwn fod disgwyl rhyddhau data nesaf ar gydymffurfiaeth SATC cyn bo hir. O ystyried yr heriau a welwyd wrth wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer SATC presennol, bydd yn bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu a'u cymhwyso i'r ffordd y caiff unrhyw safon newydd ei chynllunio, ei hariannu a'i monitro.
- 9 Ym mis Hydref 2019, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar dlodi tanwydd a oedd hefyd yn llywio gwaith yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion

Gwledig blaenorol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun Trechu Tlodi Tanwydd newydd ym mis Ebrill 2021 a nododd fod y cynllun wedi'i lywio gan ein gwaith ni a gwaith y Pwyllgor blaenorol.

- 10 Ers ein hadroddiad blaenorol ar dlodi tanwydd, rydym wedi datblygu adolygiad sy'n edrych yn fanylach ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes bresennol (sy'n cynnwys cynlluniau Nyth ac Arbed). Mae ein hadroddiad yn edrych yn benodol ar drefniadau cytundebol Llywodraeth Cymru gyda'i 'Rheolwyr Cynllun' penodedig ac yn ystyried trefniadau sicrhau ansawdd Llywodraeth Cymru. Bydd yn canolbwyntio ar y materion a'r gwersi allweddol i Lywodraeth Cymru eu datblygu i'r broses nesaf o gyflwyno'r Rhaglen. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein hadroddiad cyn diwedd mis Hydref 2021.

Economi gylchol a rheoli gwastraff

- 11 Yn 2018-19, cyhoeddwyd cyfres o dri adroddiad gennym ar reoli gwastraff: atal gwastraff (Mawrth 2019); ailgylchu trefol (Tachwedd 2018); a'r capasiti caffael neu brosesu gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd (Hydref 2018). Cyflawnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol rywfaint o waith ymchwilio wedi'i lywio gan yr adroddiadau hynny a rhannu eu barn ei hun fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth economi gylchol newydd – Y Tu Hwnt i Ailgylchu – a gyhoeddwyd wedyn ym mis Mawrth 2021. Ers ein gwaith cenedlaethol blaenorol, rydym hefyd wedi cwblhau gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff mewn sawl cyngor lleol. Mae gwasanaethau gwastraff yn un o amrywiaeth o bynciau yr ydym yn eu hadolygu'n barhaus fel rhan o'n prosesau asesu risg mewn llywodraeth leol.
- 12 Ein dealltwriaeth pan oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth economi gylchol oedd y byddai hyn yn cael ei gefnogi mewn pryd drwy ddiweddariadau strategaethau neu gynlluniau ategol perthnasol eraill, megis strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwasttraff 2010. Credwn fod llawer o'r materion a godwyd gan ein hadroddiadau blaenorol yn parhau'n berthnasol wrth i bolisi/strategaeth ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:
 - y flaenoriaeth gymharol a roddir i fesurau atal gwastraff, cynnydd yn erbyn targedau atal gwastraff a chasglu data;
 - risgiau gwerth am arian mewn perthynas â chontractau trin gwastraff presennol; ac
 - ein hargymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn disodli neu'n ategu'r targed presennol i ailgylchu, compostio ac aildddefnyddio gwastraff gyda mesurau perfformiad i ailffocysu ailgylchu ar yr adnoddau gwastraff sy'n cael yr effaith fwyaf ar leihau allyriadau carbon, a/neu sy'n brin. Roeddem yn cydnabod ar y pryd y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa mor fforddiadwy yw casglu data ar gyfer unrhyw ddull arall o fesur.

Rheoli perygl llifogydd

- 13 Er nad ydym wedi datblygu ein gwaith cwmpasu eto, rydym wedi nodi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 ein bod yn bwriadu parhau ag adolygiad ar y pwnc hwn. Cwblhawyd ein gwaith diweddaraf yn y maes hwn ym mis Gorffennaf 2016 pan adroddwyd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Cyflwynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad ar yr un pwnc ym mis Mehefin 2017.
- 14 I ddechrau, roeddem yn ystyried defnyddio ein hadolygiad i fynd ar drywydd materion o'n gwaith blaenorol, gan gynnwys cyflwyno prosiectau cyfalaf newydd drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol. Fodd bynnag, efallai y byddwn eto'n mabwysiadu cwmpas ehangach neu amgen i gynnwys ystyriaethau perygl llifogydd mewndirol. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022-23.

Seilwaith digidol

- 15 Rydym wedi nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2020 ar seilwaith cyfathrebu digidol yng Nghymru, gan gynnwys cymeradwyaeth y Comisiwn o rinweddau craffu archwilio pellach yn y maes hwn. Roeddem eisoes wedi nodi cynlluniau ar gyfer gwaith pellach ar seilwaith band eang yn dilyn ein hadroddiad ar fand eang y genhedlaeth nesaf (yn benodol rhaglen Cyflymu Cymru) ym mis Mai 2015. Fodd bynnag, nid ydym wedi penderfynu eto ar gwmpas ein gwaith gan gynnwys, er enghraifft, y cydbwysedd rhwng edrych ar faterion yn ymwneud â chontractio ar gyfer darparu seilwaith ac ystyriaeth ehangach o gynhwysiant digidol. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022-23.

Digidol a data

- 16 Bu nifer o ddatblygiadau pwysig yn y gofod hwn gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai a nodir yn llythyr y Gweinidogion. Mae'r rhain yn cynnwys recriwtio a/neu benodi Prif Swyddogion Digidol newydd yn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ar gyfer y GIG. Hefyd, creu'r awdurdod iechyd arbennig newydd, Iechyd Digidol a Gofal Cymru, sy'n dod o fewn cylch gwaith archwilio allanol yr Archwilydd Cyffredinol.
- 17 Yn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus sydd ar y gweill, byddwn yn nodi pum maes allweddol o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus lle byddwn yn disgwyl gweld cynnydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys 'harneisio technoleg ddigidol i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch' a 'defnyddio data a gwybodaeth i ddysgu a gwella ar draws y system gwasanaeth cyhoeddus gyfan'. Amlygodd ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2018 ar aeddfedrwydd llywodraeth leol wrth ddefnyddio data yr her o rannu gwybodaeth â phartneriaid mewn llywodraeth leol. Awgrymodd ein canfyddiadau hefyd fod cryn ffordd i fynd o hyd i awdurdodau lleol datblygu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio data i'w lawn botensial i helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau.

- 18 Mewn adroddiadau blaenorol ar systemau gwybodeg GIG Cymru a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, rydym wedi tynnu sylw at y manteision posibl, ond gweithredu araf, o wasanaethau digidol yn y GIG a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, byddwn yn cydnabod yn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus fod yr ymateb i'r pandemig wedi dangos y gall gwasanaethau cyhoeddus symud yn gyflym i gyflwyno a mabwysiadu technoleg ddigidol newydd.

Cludiant

- 19 Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw waith sylweddol yn ein rhaglen genedlaethol sy'n edrych ar faterion trafndiaeth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar ddarparu cynllun ffordd Adran 2 yr A465 (Chwefror 2020) a, chyn hynny, ar gynllun FyNgherdyn Teithio sy'n darparu teithio ar fysiau am bris gostyngol i bobl ifanc (Ionawr 2019).
- 20 Gwnaethom hefyd ymdrin â materion yn ymwneud â seilwaith porthladdoedd yn ein gwaith ar barodrwydd ar gyfer Brexit yn ystod y pumed Senedd. Yn fwyaf diweddar, gohebodd yr Archwilydd Cyffredinol â'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Tachwedd 2020. Roedd y llythyr hwnnw'n adlewyrchu rhai o'r meysydd risg allweddol, gan gynnwys mewn perthynas â phorthladdoedd, ac yn trafod materion a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Diwedd Pontio Llywodraeth Cymru. Ers diwedd 2020 rydym wedi gweld rhai o'r effeithiau sydd bellach wedi dod i'r amlwg yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE, megis dirywiad mewn teithio rhwng Cymru ac Iwerddon. Ar thema gysylltiedig, rydym yn ymwybodol o ymgysylltiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â Llywodraeth Cymru i geisio barn fel rhan o'r gwaith y mae'n ei gwblhau i ddarparu diweddariad am reoli ffin y DU. Rydym yn deall bod yr adroddiadau hynny i'w cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2021.
- 21 Byddwn yn ceisio ailedrych ar gyfleoedd i gynnal rhagor o waith ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth wrth i ni gynllunio ein rhaglen waith ar gyfer 2022-23, gan ystyried datblygiadau ac unrhyw newidiadau mewn patrymau gwariant sy'n deillio o Strategaeth Drafndiaeth newydd Cymru, a bwriadau Llywodraeth Cymru ynghylch rôl Trafnidiaeth Cymru sy'n cynnyddu. Nid yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol Trafnidiaeth Cymru, ond mae ei bwerau arolygu ehangach yn dal i fod yn sail ar gyfer archwilio gwerth am arian gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru.
- 22 Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am rewi prosiectau adeiladu ffyrdd newydd tra bod adolygiad o gynlluniau priffyrdd ledled Cymru yn ddatblygiad nodedig yn dilyn yr etholiad y credwn y gallai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mater i Lywodraeth Cymru yw unrhyw benderfyniadau y caiff eu gwneud yn hyn o beth a'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yng nghyd-destun polisi ehangach. Serch hynny, bydd unrhyw benderfyniadau i ganslo neu ddiwygio cynlluniau sydd eisoes wedi bod drwy waith cynllunio a datblygu sylweddol yn debygol o arwain at oblygiadau ariannol drwy ddileu costau neu gynydd posibl mewn costau sy'n deillio o oedi. Hyd yn oed lle nad yw gwaith adeiladu eisoes ar y gweill, gall y costau sy'n gysylltiedig â champau cynllunio cynharach cynlluniau mawr fod yn sylweddol, fel y dangosir yn achos y costau sy'n cael eu dileu ar gyfer Ffordd Liniaru'r M4.

Gwerthiannau pren

- 23 Rydym wedi adrodd o'r blaen, fel y gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol, ar faterion yn ymwneud â dyfarnu contractau gwerthu pren gan Cyfoeth Naturiol Cymru a arweiniodd at gymhwyso barn rheoleidd-dra'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2015-16, 2016-17, 2017-18, 2018-19 a 2019-20. Mae llythyr y Gweinidogion yn cyfeirio at gynlluniau ar gyfer datblygu strategaeth ddiwydiannol bren i Gymru a fydd yn 'cynnwys edrych ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi ymrwymo i werthu hyd at 30% o'u pren drwy ddewisiadau amgen i'r model presennol sy'n canolbwyntio ar werthu am y gwerth ariannol uchaf'. Mae'r incwm a dderbynnir o werthiannau pren yn nodwedd berthnasol yng nghyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly rydym yn disgwyl parhau i ymddiddori yn y maes hwn fel rhan o'n gwaith archwilio allanol.